Urdd Gobaith Cymru
Disgrifiad Swydd

Teitl y swydd:	Swyddog Datblygu Ieuenctid Torfaen/Blaenau Gwent
Yn atebol i:	Cyfarfwyddwr Ieuenctid a thrwyddo ef i'r Prif weithredwr
Cyflog:	Ar raddfa 7 Strwythur Cyflog yr Urdd (£21,804 – £25, 276). Penodir ar bwynt 1 oni bai fod profiad/cymwysterau arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.
Oriau gwaith:	35 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd mae'n ofynnol gweithio y tu allan i oriau arferol swyddfa, a cheir amser dyledus yn ôl am hyn.
Lleoliad:	Torfaen/Blaenau Gwent
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr. Bydd angen neilltuo 3 diwrnod ar gyfer y cyfnod rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis. Cynigir y swydd ar gytundeb dymor penodol tan 23 Chwefror 2013 yn amodol ar werthusiad llwyddiannus yn 2011.
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith.
Teithio:	Telir lwfans o 40c y filltir.
Gwiriad CRB:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB/ISA)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir fynd am archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.

Prif Ddyletswyddau

1. Sicrhau bod 150 o bobl ifanc yn cael budd o'r cynllun yn flynyddol a bod 50 o'r rheiny yn derbyn profiadau sydd yn cael eu cydnabod y tu allan i addysg ffurfiol.

2. Sicrhau gweinyddiaeth effeithiol y cynllun yn yr ardal ddaearyddol benodol gan gynnwys cadw trefn ar gadw gwybodaeth a chofnodion llawn ar y buddiolwyr (*beneficiaries*).

3. Gweithio am gyfnodau penodol i ddenu grwpiau bychain o bobl ifanc gan ddatblygu sgiliau anffurfiol ac annog achredu sgiliau anffurfiol.

4. Sicrhau bod y bobl ifanc yn trosglwyddo profiadau ac achrediadau a geir trwy'r Urdd i'w Ffeiliau Cynnydd. (Sef ffeiliau sy'n cofnodi cyrhaeddiad pobl ifanc. Gweinyddir y ffeiliau yma gan y gyfundrefn addysg a gwasanaeth gyrfaol).

5. Datblygu cysylltiau a rhwydweithiau perthnasol o fewn y sir /ardal ddaearyddol benodol er mwyn adnabod bylchau ac osgoi dyblygu a chynnig cyfleoedd a rhannu adnoddau. E.e. cyfundrefn addysg, Gwasanaeth Ieuenctid y Sir, Rhwydwaith Dysgu 14-19, mudiadau eraill, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ayb

6. Creu, adnabod a sicrhau cyfleoedd i achredu pobl trwy weithgareddau cyfredol y mudiad a thrwy adnabod cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid eraill.

7. Sefydlu a chynnal perthynas gyda'r cyrff achredu perthnasol a gweinyddu'r cyfundrefnau achredu perthnasol. E.e. OCN, Coleg Cymunedol YMCA.

8. Trwy ddefnyddio cynlluniau a gweithgareddau cyfredol yr Urdd, darparu cyfleoedd i ddatblygu gwirfoddolwyr ifanc e.e. Cynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

9. Sefydlu Fforwm Ieuenctid yn yr ardal ddaearyddol benodol gan sicrhau bod y Fforwm yn datblygu cysylltiadau gweithio gyda'r Ddraig Fynci, Fforymau Ieuenctid yr Awdurdod Lleol a fforymau perthnasol eraill.

10. Gweinyddu gwariant y cynllun ar gyfer ardal ddaearyddol benodol.

11. Cyflwyno ceisiadau i ffynonellau grantiau bychain perthnasol.

12. Cydweithio'n agos gyda staff eraill y mudiad, yn bennaf swyddogion datblygu, swyddogion chwaraeon yr ardal a gwersylloedd yr Urdd.

13. Gweithio'n agos gyda staff eraill cynllun "Llwybr i'r Brig" .

14. Bydd angen i ddeiliad y swydd hon ddarllen, deall a dilyn holl bolisïau a gweithdrefnau Urdd Gobaith Cymru, yn enwedig y polisi Diogelu Plant a pholisi Iechyd a Diogelwch.

15. Ymgymryd â thasgau rhesymol eraill yn achlysurol ac yn ôl y galw.

Gofynion

1. Byddai'n fanteisiol cael profiad o weithio gyda phobl ifanc. Byddai profiad yn y meysydd canlynol hefyd yn fantais ychwanegol: gweithgareddau awyr agored, chwaraeon, celfyddydau gweledol/ perfformio, gwaith ieuenctid/ mentora, profiad o addysg anffurfiol gyda phobl ifanc.

2. Bydd y gallu i weithio'n annibynnol, rhwydweithio gyda chyrff allanol a'r gallu i adnabod cyfleoedd addysg anffurfiol yn fanteisiol.

3. Bydd cymhwyster gwaith ieuenctid yn fanteisiol e.e. NOCN 3. Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus sydd heb gymhwyster gwaith ieuenctid perthnasol gyflawni'r cymhwyster Agored Cymru Lefel 3 Tystysgrif Gwaith Ieuenctid.

4. Byddai profiad blaenorol o ddatblygu cynlluniau newydd a/ neu geisiadau am grant yn fanteisiol.

5. Bydd angen bod yn weinyddol drefnus ac effeithiol.

6. Bydd angen trwydded yrru llawn ar yr ymgeisydd llwyddiannus.

7. Sgiliau cyfrifiadurol gan gynnwys Word ac Excel.

Ymgeisio
Os hoffai unrhyw ymgeisydd gael sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd, mae croeso iddynt gysylltu â Catrin James, Swyddog Hyfforddi Cenedlaethol ar 01267 676734; neu e-bostio catrinj@urdd.org neu Dyfrig Morgan Cyfarwyddwr Prosiectau Ieuenctid ar 07976003352 neu Dyfrig@urdd.org

Ceir mwy o fanylion am waith yr Urdd ar ein gwefan www.urdd.org

Rhaid i geisiadau, gan gynnwys ffurflen gais a llythyr ymgeisio wedi eu teipio, gyrraedd dyfrig@urdd.org neu

Dyfrig Morgan
Cyfarwyddwr Ieuenctid
Canolfan yr Urdd
Wind Street
ABERDAR
CF44 7ES

erbyn **hanner dydd, dydd Llun, 2 Awst 2010.**

Dylai ceisiadau ddangos yn glir sut mae unrhyw brofiad blaenorol a sgiliau, yn cyfateb i'r anghenion a'r dyletswyddau a nodir yn y Swydd Ddisgrifiad.

Cynhelir y cyfweliadau ar fore 26 Awst 2010..

urdd.org

ATODIAD 1

Urdd Gobaith Cymru: Canllaw syml i'r cynllun a fydd yn cael ei ariannu drwy arian ESF, cronfeydd cydgyfeiriant

1. **Beth yw amcanion y cynllun?**

Nod y cynllun yw gwella a chynyddu'r ddarpariaeth y mae'r Urdd yn ei gynnig i bobl ifanc rhwng 11 a 19 mlwydd oed.
Bydd hyn yn arwain at

- Gynyddu'r nifer o brofiadau i bobl ifanc sy'n cael eu hachredu trwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwella dinasyddiaeth drwy brosiectau lleol a gwirfoddoli
- Datblygu arweinwyr lleol drwy brosiectau lleol ac achredu sgiliau a gafodd eu meithrin wrth ymgymryd â phrosiectau
- Datblygu hyder mewn gwerth economaidd defnyddio'r Gymraeg
- Gwella'r ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfaol drwy gyfrwng y Gymraeg

Un o'r prif amcanion fydd sicrhau tua 660 y flwyddyn o bobl ifanc yn cael cydnabyddiaeth achrededig o'r profiadau a gânt trwy gyfrwng y prosiect.
Mae cynllun yr Urdd yn rhan o gynllun 'Reach the Heights/Cyrraedd yr Nod' Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n gynllun ar y cyd gyda phartneriaid eraill gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Techniquest, Snap Cymru, Achub y Plant, Funky Dragon ac eraill. Yr Urdd yw'r unig fudiad ieuenctid gwirfoddol sydd yn rhan o'r cynllun.

2. **Sut fydd hyn yn cael ei gyflawni?**

Bydd yr arian a dderbynnir yn caniatáu i ni sicrhau bod 16 o swyddogion ieuenctid ychwanegol yn cael eu cyflogi i gynyddu cyfleoedd anffurfiol a di-ffurfiol i siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg.
Bydd y swyddogion yn gweithio yn yr ardaloedd cydgyfeiriant canlynol.

Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Dinbych, Ceredigion, Penfro, Sir Gâr, Abertawe, Castell Nedd a Phort Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr, Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen.

Bydd y swyddogion yn gweithio gyda grwpiau bychain o bobl ifainc ar brosiectau penodol. Bydd disgwyl i lawer o'r profiadau a gynigir allu gael eu hachredu. Bydd modd defnyddio dulliau e.e. OCN, CSLA, Cynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm, Cynllun Gwobr Dug Caeredin i achredu'r profiadau. Byddwn yn gallu defnyddio llawer o'r profiadau mae'r Urdd yn ei gynnig eisoes fel rhan o'r cynllun, er enghraifft mynd i'r gwersyll ar gyrsiau pontio, cynorthwyo ar deithiau neu eisteddfodau.

Byddwn hefyd yn sefydlu fforymau ieuenctid cyfrwng Cymraeg mewn o leiaf 12 ardal cydgyfeiriant. Bydd y profiadau a gynigir yn gallu amrywio yn ôl anghenion yr ardal, anghenion bobl ifanc, natur ddaearyddol yr ardal, natur y partneriaethau y byddwn yn cydweithio a hwy mewn ardal arbennig.

Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd rhai swyddogion yn gweithio yn bennaf er mwyn rhoi profiadau celfyddydol i bobl ifanc ar draws ardal weddol eang. Bydd swyddogion eraill yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n mynychu un ysgol benodol, neu glwstwr o ysgolion. Gall y profiadau a gynigir fod trwy chwaraeon, trwy brofiadau awyr agored, trwy lenyddiaeth, cerddoriaeth, profiadau preswyl. Yn Rhondda Cynon Taf, fe fydd 50% o'r gwaith a wneir gan y swyddogion a benodir yn ymwneud â phlant sydd ar fin cael eu heithrio, a hynny oherwydd natur y bartneriaeth sydd wedi ein galluogi i ariannu'r cynllun.

3. Sut fydd hyn yn cael ei ariannu?

Bydd grant o £2.3 miliwn yn cael ei gyfrannu o ffynonellau Ewropeaidd tuag at gynllun gwerth £4.7m (sef cyfradd ymyrraeth o 54.46%). Cyfnod y grant fydd rhwng Mawrth 2009 a Medi 2013. Os bydd y cynllun yn llwyddiannus, bydd cyfle i wneud cais i ariannu'r cynllun am gyfnod pellach o amser.

Bydd cyfraniad yr Urdd o £2.4 miliwn yn cael ei gyfrifo drwy gyfrif amser staff presennol a fydd yn cyfrannu at y cynllun, gyda llawer o'r amser hwn wedi cael ei dalu amdano drwy grant gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd grantiau rydym yn eu derbyn gan Awdurdodau Lleol, er enghraifft Gwynedd, Môn, Conwy, Dinbych yn cyfrannu hefyd. Mae gennym bartneriaeth gyda Menter Iaith Abertawe a fydd yn ein galluogi i benodi swyddog yn ardal Abertawe fel rhan o'r Cynllun. Bydd partneriaeth hefyd gydag Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf yn ein galluogi i dendro'r gwaith o ddarparu'r prosiect yn yr ardal honno.

.